**Reviewed: January 2015**

PEMBROKESHIRE BIODIVERSITY PARTNERSHIP

PARTNERIAETH BIOAMRWYIAETH SIR BENFRO

# Cynllun Gweithredu Rhywogaeth: Brithribin Brown

## Cyflwyniad

### Cwmpas

Mae'r cynllun gweithredu ar gyfer rhywogaeth yma yn cwmpasu'r glöyn byw, y brithribin brown (*Thecla betulae*). Bydd llawer o'r camau gweithredu sy'n angenrheidiol i warchod y brithribin brown yn cael eu cyfeirio tuag at warchod a chyfoethogi'r cynefinoedd y maent yn dibynnu arnynt. Dylid cyfeirio felly at y cynlluniau gweithredu ar gyfer cynefinoedd perthnasol, fel y rhestrir yn yr adran cynlluniau a pholisïau cysylltiedig isod.

### Datganiad gweledigaeth

I gynnal a chyfoethogi maint, nifer a dosbarthiad poblogaethau o'r brithribin brown yn Sir Benfro.

### Disgrifiad o'r Rhywogaeth

Mae'r brithribin brown yn un o loÿnnod byw swil y perthi ac ymylon coedwigoedd. Mae'n bridio ar ddrain duon. Mae nythfeydd yn digwydd mewn grwpiau bychain dros ardal eang o dir amaeth wedi eu canoli o amgylch coedwig, ond mae'r dodwy wyau'n ymestyn dros lawer o filltiroedd sgwâr o gefn gwlad cyfagos.

Caiff yr wyau eu dodwy ar frigau drain duon ifanc wrth fôn pigau'r drain ar egin arweiniol sy'n tyfu allan o'r clawdd neu ar wylltimpiau neu ddrain duon ifanc hadyd wrth fôn y clawdd, yn aml mewn lleoliadau heulog cysgodol. Yn gyffredinol, credir bod cynefin addas ar gyfer dodwy yn cynnwys tyfiant 1-3 mlwydd oed gyda brigau o 20-50cm o hyd a llai na 1cm mewn diamedr.

Bydd wyau'r brithribin brown yn deor ar yr adeg pan fydd blagur y drain duon yn deilio a bydd y larfa'n bwydo ar y tyfiant newydd yma. Daw'r oedolion i'r golwg ddiwedd mis Gorffennaf a dechrau Awst a byddant yn dechrau dodwy wyau'n fuan wedyn. Mae eu tymor hedfan yn un hir ac mae'n bosibl y byddant yn dal i'w gweld ym mis Hydref. Bydd y gloÿnnod byw'n treulio'r rhan fwyaf o'u hamser ym mhennau'r coed neu ar hyd ymylon coedwigoedd. Maent yn dueddol o ymgasglu o amgylch grwpiau penodol o goed ('prif goed'), yn enwedig wrth chwilio am gymar. Gall prif goed fod yn goed ynn neu dderi mawr, trwchus sy'n tyfu ar ymylon dyffrynnoedd cysgodol, neu ar hyd ymylon coedydd a llwybrau meirch.

Mae sicrhau cadwraeth y brithribin brown yn heriol dros ben gan y bydd nythfeydd unigol yn bridio, gan amlaf, dros ardaloedd eang o dir ac ni fydd modd eu gwarchod trwy fesurau ar safleoedd penodol yn unig. Mae'n galw am warchod tirweddau cyfan a rheoli tir / ffermydd mewn modd sympathetig gan gwmpasu coedwigoedd, cloddiau ac ymylon caeau.

# Dosbarthiad

Yn y DU, mae'r brithribin brown wedi ei gyfyngu'n bennaf i ardaloedd yn y de a'r gorllewin. Yn Sir Benfro, dengys cofnodion y gellir dod o hyd iddo yn rhan ddwyreiniol Sir Benfro o hydoedd uchaf aber afon Cleddau a thua'r gogledd i Gilgerran. Yn yr ardal yma o Sir Benfro, mae'r ddraenen ddu yn elfen sylweddol o'r cloddiau, gan ffurfio cynefin eang iawn allai gynnal poblogaeth niferus dros ben. Mae'r llu o ddyffrynnoedd coediog cysgodol yn darparu'r cynefin pen coed allweddol. Gan ei fod, yn bennaf, yn löyn byw canopi'r coed, mae'r mwyafrif o gofnodion o fenywod yn chwilio am safleoedd dodwy wyau addas (Awst i Fedi), yr wyau eu hunain (o'r hydref i'r gaeaf), neu yn nifer fechan o gofnodion o larfa (Ebrill i Fehefin). O'r herwydd, mae'r rhywogaeth yn anodd i'w lleoli ac mae'n bosibl ei bod wedi ei than-gofnodi. Credir bod elfennau o boblogaeth Sir Benfro'n rhan o boblogaeth ehangach sy'n cwmpasu rhannau o Sir Gaerfyrddin a Cheredigion.

# Statws Cadwraethol

Mae'r tueddiad tymor hir ar gyfer y rhywogaeth yma yn y DU yn arddangos dirywiad difrifol ac, o ganlyniad, mae'n rhywogaeth â blaenoriaeth ar gyfer ymdrechion cadwraeth.

Mae'r brithribin brown wedi ei warchod o dan Atodlen 5, Adrannau 9.5a a 9.5b, Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (1981). Mae'n un o rywogaethau â blaenoriaeth Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU ac mae'n ymddangos ar restr Adran 42, Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig (2006), o rywogaethau pwysig iawn yng Nghymru. Mae'r rhywogaeth wedi ei chynnwys ar restr 'The Butterfly Red List for Great Britain (2010)' fel un 'fregus' gan i asesiad ddangos bod ei niferoedd wedi dirywio 30-49% dros 25 mlynedd.

**Reviewed: January 2015**

# Bygythiadau

Yn hanesyddol, mae'n bosibl bod y brithribin brown wedi dioddef o ganlyniad i dynnu cloddiau, ond mae ffactorau eraill yn effeithio ar ei oroesiad bellach, yn cynnwys:

- Curo cloddiau'n ddwys bob blwyddyn, a'r rheini'n cynnwys wyau sy'n gaeafu.
- Diffyg dulliau rheoli traddodiadol, fel torri a phlygu cloddiau.
- Dileu neu esgeuluso ymylon a chlytiau prysgwydd.
- Anifeiliaid sy'n pori yn difrodi twf drain duon ifanc.
- Gall newid hinsawdd olygu risgiau yn ogystal â chyfleoedd wrth i gynefinoedd newid mewn ymateb i dueddiadau mewn amodau hinsoddol. Bydd cysylltedd ecolegol da yn hanfodol er mwyn galluogi'r rhywogaeth i addasu ei hamrediad a'i dosbarthiad mewn ymateb i newidiadau o'r fath.
- Gall afiechydon coed fel clefyd coed ynn (*Chalara fraxinea*) a chlwyf marwol sydyn y derw (*Phytophtora ramorum*) arwain at golli 'prif goed' fel coed derw ac ynn - unai trwy farwolaeth uniongyrchol, neu o ganlyniad i'w cwympo er mwyn atal achos o afiechyd.

# Cynlluniau a Pholisïau Cysylltiedig a Gwybodaeth Bellach

Mae cynlluniau / polisïau eraill sy'n effeithio'n uniongyrchol ar reoli'r brithribin brown yn Sir Benfro a gwybodaeth ychwanegol ddefnyddiol yn cynnwys:

- 'Brown Hairstreak in Wales'. *Butterfly Conservation*. Gwybodaeth gyffredinol ar gael yma: http://butterfly-conservation.org/files/1.bcw_brown-hairstreak_bh_eng.pdf
- 'A Guide to Blackthorn Management for the Brown Hairstreak at West Williamston Nature Reserve, Pembrokeshire.' Ar gael ar gais oddi wrth Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru, Canolfan Bywyd Gwyllt Cymru, Cilgerran, Aberteifi. SA43 2TB
- 'Hedgerows for Hairstreaks'. *Butterfly Conservation*. Canllaw rheoli cloddiau ar gyfer cadwraeth y Brithribin Brown. Ar gael yma: https://butterfly-conservation.org/files/habitat-hedgerows-for-hairstreaks.pdf
- 'Lowland Farmland Habitat Action Plan': http://ukbars.defra.gov.uk/project/show/36387
- 'West Williamston Nature Reserve Management Plan'. Ar gael ar gais oddi wrth Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru, Canolfan Bywyd Gwyllt Cymru, Cilgerran, Aberteifi. SA43 2TB
- 'Woodland Habitat Action Plan' http://ukbars.defra.gov.uk/project/show/36390

**Reviewed: January 2015**

# Nodau'r Cynllun

| Rhif | Nod | Dyddiad Cau | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| BH01 | Cynyddu a chynnal ymwybyddiaeth y cyhoedd ynghylch, a'u diddordeb yn, y brithribin brown a'i anghenion cadwraethol | Adolygiad nesaf: Ion 2020 | |
| BH02 | Darganfod maint ac ystod poblogaeth y brithribin brown yn Sir Benfro | Adolygiad nesaf: Ion 2020 | |
| BH03 | Cynnal ystod a / neu boblogaeth y brithribin brown yn Sir Benfro trwy reoli safleoedd hysbys mewn modd priodol | Adolygiad nesaf: Ion 2020 | |
| BH04 | Ehangu ystod a / neu boblogaeth y brithribin brown yn Sir Benfro trwy annog rheolaeth briodol o gynefinoedd drain duon ac ymylon coedydd rhwng neu gerllaw safleoedd hysbys. | Adolygiad nesaf: Ion 2020 | |

# Camau Gweithredu Argymelledig

| Cod | Cam Gweithredu | Adrodd erbyn | Rôl Arweiniol | Cynnydd / Gwybodaeth Ychwanegol |
|---|---|---|---|---|
| | Rheoli'r Brithribin Brown yng Ngwarchodfa Natur Gorllewin Williamston | | | |
| | Cofnodi'r Brithribin Brown yng Ngorllewin Williamston | | | |

**Reviewed: January 2015**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Cynnal arolwg systematig o'r Ardal Brithribin Brown er mwyn canfod statws presennol y glöynnod byw yno. Mae'n debyg bod gofynion sylfaenol y rhywogaeth yma wedi eu cyflawni mewn ardal eang o ddwyrain Sir Benfro, yr unig ffactor sy'n cyfyngu ar eu llwyddiant yw'r broses flynyddol o guro'r cloddiau. Mae cofnodion presennol am y rhywogaeth (ar wahân i'r ddau safle ble caiff wyau eu cyfrif yn flynyddol, a gwaith yng ngogledd y sir) wedi codi'n sgil arsylwadau achlysurol. Yn Sir Gaerfyrddin mae arolwg mwy systematig wedi datgelu … | | | |
| | Cynnal arolygon blynyddol o fetaboblogaethau'r Brithribin Brown yn Sir Benfro a chydweithio gydag ardaloedd y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol cyfagos ble fo poblogaethau'n croesi ffiniau'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol. | | | |
| | Dynodi Ardal Brithribin Brown sy'n cwmpasu dwyrain Sir Benfro o linell sy'n ymuno ag ochr ogleddol aber afon Cleddau tua'r gogledd at yr arfordir, tua'r dwyrain at ffin Sir Gaerfyrddin i gynnwys yr holl dir o dan 200m. O fewn yr ardal hon, sicrhau bod y brithribin brown yn cael ei ystyried yn y gwaith o reoli tir cyhoeddus (ymylon ffyrdd, ysgolion, ardaloedd tai, meysydd parcio, tenantiaethau amaethyddol neu drefniadau tebyg). | | | |
| | Dynodi safleoedd nythfeydd fel Gwarchodfeydd Natur Lleol/SoDdGA a sicrhau bod Gwarchodfeydd Natur Lleol/SoDdGA/GNG sy'n bodoli eisoes yn yr ardal yn ystyried gofynion y Brithribin Brown. Adolygu cynlluniau rheoli presennol i gynnwys cynigion rheoli cloddiau / prysgwydd ble fo'n briodol. | | | |

**Reviewed: January 2015**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Datblygu a hyrwyddo, gyda phartneriaid, y Cod Arferion Gorau ar reoli cloddiau Brithribin Brown. Sicrhau bod y Cod Arferion Gorau yn cael ei hyrwyddo a'i weithredu gan bob partner. | | | |
| | Sicrhau bod cynlluniau amaeth-amgylchedd yn sensitif i anghenion y Brithribin Brown o fewn yr Ardal Brithribin Brown. Datblygu a gweithredu fersiynau lleol o'r cynlluniau (y mae pob un ohonynt, hyd yn oed heddiw, yn hybu gwaith rheoli fferm sy'n arwain at ddifodiant y Brithribin Brown) | | | |
| | Sicrhau bod y brithribin brown yn cael ei ystyried yn llwyr mewn unrhyw ddatblygiad allai effeithio ar y rhywogaeth a'r Ardal Brithribin Brown. (Mae o leiaf dri phrosiect adeiladu mawr (ar raddfa tirwedd) wedi eu cynllunio ar gyfer yr ardal:- Bluestone, a'r addasiadau i'r A40 i'r gorllewin o Sanclêr, yn cynnwys darparu ffyrdd osgoi ar gyfer Robeston Wathen a Llanddewi Felffre). Sicrhau bod unrhyw brosiect adeiladu mawr yn darparu hydoedd o gloddiau'n llawn drain duon a nodweddion prysgwydd drain duon, a'u bod yn … | | | |
| | Cynhyrchu a dosbarthu canllawiau sy'n bodoli eisoes ar reoli cloddiau ar gyfer BHS i dirfeddianwyr lleol, taflen a gwefan | | | |
| | Hyrwyddo cynlluniau cofnodion cenedlaethol trwy gylchlythyr Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Benfro, tra hefyd yn annog pobl i anfon eu cofnodion at y Cofiadur Sirol a Chanolfan Wybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru / Canolfan Cofnodion Morol Cenedlaethol. Hyrwyddo cystadlaethau ac arolygon bywyd gwyllt cenedlaethol mewn gerddi e.e. *Garden Birdwatch*, *Feed the Birds Day*, *WTSWW Great Garden Wildlife Survey*, ayyb. | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Cynyddu ymwybyddiaeth am y brithribin brown, ei gynefinoedd a'i gadwraeth. Cynyddu ymwybyddiaeth am fuddiannau economaidd a chadwraeth arferion rheoli cloddiau dwysedd isel. Digwyddiad lansio. Sefydlu prosiectau cymunedol, cynnal dyddiau hyfforddi ar gyfer staff yr awdurdod lleol, contractwyr a chymunedau. Sicrhau cyhoeddusrwydd trwy'r Western Telegraph / Radio Penfro / Yr Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt | | | |
| | Trwy weithredu Canllawiau Cynllunio Atodol Bioamrywiaeth Sir Benfro, sicrhau y caiff pob cais cynllunio ei asesu am effeithiau posibl ar adnoddau bioamrywiaeth. Sicrhau bod ceisiadau cynllunio sy'n effeithio ar Gynefinoedd a Rhywogaethau'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol yn cael eu harchwilio a'u bod yn cynnwys arolygon ecolegol llawn gaiff eu hystyried yn ddeallus, a'u bod yn cynnwys mesurau lliniaru sy'n mynd i'r afael yn drylwyr ag unrhyw effeithiau negyddol posibl. | | | |
| | Targedu hydoedd uchaf dyffryn y Cleddau Ddu a'r ardal gyfagos ar gyfer gwaith rheoli cynefin, er mwyn gwella cysylltedd rhwng dwy boblogaeth y gwyddir amdanynt. | | | |
| | Treialu arwyddbyst Bioamrywiaeth fel atgoffâd gweledol ar gyfer gyrwyr peiriannau trymion ar safleoedd sensitif. | | | |
| | Cynhyrchu cardiau post arolwg 'helfa wyau', er mwyn cynnwys y cyhoedd yn y gwaith o gofnodi'r brithribin brown. | | | |
| | Cynhyrchu a hyrwyddo canllawiau rheoli ar gyfer tirfeddianwyr / rheolwyr | | | |
| | Recriwtio a chefnogi 'hyrwyddwyr y brithribin brown' yn y Sir i gydlynu arolygon gwirfoddol a hybu rheolaeth dda. | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Cynyddu amrywiaeth ‘prif goed’ posibl ar safleoedd hysbys er mwyn gwella gwytnwch i wrthsefyll colli coed o ganlyniad i afiechyd. | | | |